Sibani Roy yw fy enw i, rwy'n foesegwr ac yn Gaplan Hindwaidd ond rwy'n parchu ac yn gweithio i bawb, beth bynnag eu credoau. Rwy'n sylfaenydd ac yn gadeirydd Rhwydweithio dros Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Integreiddio Amlddiwylliannol (NWAMI) a elwid gynt yn Gymdeithas Integreiddio Amlddiwylliannol Gogledd Cymru (NWAMI). Cenhadaeth NWAMI yw integreiddio cymunedau o gefndiroedd diwylliannol amrywiol trwy addysg ac ymwneud diwylliannol. Gwnaethom gynnal digwyddiad amlddiwylliannol undydd proffil uchel ym Mhrifysgol Bangor yn 2013 i ddod â'r brifysgol a'r ddinas ynghyd ac mae hyn yn cael ei wireddu. Ond yn ystod yr argyfwng Coronafeirws, rydym wedi gorfod rhoi paid ar ein cenhadaeth dros dro ac rydym wedi bod yn brysur yn gofalu am bobl fregus yn y gymuned, er enghraifft  trwy ddarparu bwyd iddynt, mynd â hwy i'r ysbyty neu i apwyntiadau eraill ac ati. Mae Covid-19 a'r cyfnod clo hir wedi gwneud i ni deimlo rheidrwydd moesol i estyn allan a helpu pobl ynysig ac unig sydd angen cymorth a chefnogaeth. Mae llawer ohonom yn gweithio'n galetach nag erioed o'r blaen i sicrhau nad oes unrhyw un yn y gymuned yn dioddef oerfel, diffyg bwyd a diffyg rywun i siarad â hwy.  Mae staff a myfyrwyr y brifysgol yn rhan o'r gymuned hefyd. Dim ond codi'r ffôn sy'n rhaid gwneud os oes angen unrhyw fath o help arnoch yn enwedig os ydych yn aros ar y campws yn ystod cyfnod y Nadolig o bum diwrnod a ddynodwyd gan y llywodraeth, sef 23 i 27 Rhagfyr.

Yn y gorffennol sefydlais ysgol yn dysgu sgiliau lletygarwch mewn rhan anghysbell o'r India lle cefais ddigon o brofiad o bryderon academaidd a bugeiliol myfyrwyr o wahanol rannau o'r wlad a dod i gysylltiad agos â'u teuluoedd a roddodd bleser mawr imi.

Bydd y firws a'r cyfnod cloi yn dod i ben ac efallai y byddwn yn wynebu dyfodol o heriau newydd wedi hynny. Nadolig Llawen a

Bendith Duw arnoch i gyd! Namaste

